

## Y Gemau

Un o'r gweithgareddau y bydd Cynllun Efe yn ei gynnal yr haf hwn fydd 'Y Gemau'. Bwriedir ymweld ag ysgolion cynradd i gyflwyno hanner diwrnod o weithgareddau ar thema Ewro 2016.

Gwnaethom rywbeth tebyg y llynedd adeg Cwpan Rygbi'r Byd, a chafwyd dyddiau llwyddiannus a werthfawrogwyd yn yr ysgolion.

Mae Andrew yn trefnu'r dyddiadau a'r ysgolion ar hyn o bryd. Mae wedi trefnu i ni fynd i Ysgol Dolbadarn, ond heb drefnu'r dyddiad eto. Os ydych am fod yn rhan o'r gwaith hwn, rhowch wybod i ni mor fuan â phosibl.

## Cyhoeddiadau

### YR OFALAETH

**Nos Fercher, Ebrill 27:** Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch.

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mai 1:** Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Sylwch ar yr amser – 3.30 o'r gloch.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Mai 1:** Cynhelir oedfa am 10.00 o'r gloch a'r Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Myfyr Roberts.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mai 1:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mai 1:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Richard O Jones, Gaerwen.

### CARMEL

**Nos Wener, Ebrill 29:** 'Dwylo Prysus' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mai 1:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a gweinyddir y Cymundeb yn ystod yr oedfa.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Ebrill 29:** Cynhelir y Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref, Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Deiniolen

### Ebrill 24

5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

### Mai 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

### Mai 8

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

### Mai 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Y mis nesaf - Llanberis

### Ebrill 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

### Mai 1

10.00 p.m. - Oedfa

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Myfyr Roberts

### Mai 8

10.00 p.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 680: Dydd Sul, 24 Ebrill, 2016

## A55

Mae'r briffordd A55 yn y newyddion yn gyson. Yn ddyddiol, clywir pobl yn galw ar y Llywodraeth i wario arian i'w gwella. O gofio'r holl rwystrau sydd ar yr A55, roedd yn rhyfedd iawn clywed y dydd o'r blaen fod awgrym wedi ei wneud i godi'r cyflymder gyrru arni o 70 i 80 milltir yr awr. A beth feddyliwch chi wedyn o'r awgrym a wnaed yr wythnos ddiwethaf i roi enw newydd i briffordd y Gogledd?

Ryw sut, fedra' i ddim credu mai enw newydd yw'r flaenoriaeth i'r bobl sy'n teithio'n gyson ar hyd y lôn hon. Pa angen enw arall arnom? Fyddai enw newydd yn golygu y byddai eistedd mewn rhes o draffig llonydd yn llai o boen? Ond wedi meddwl am y peth, dyna sylweddoli nad ar ein cyfer ni'r Gogleddwyr ond ar gyfer ymwelwyr y bwriedir yr enw newydd. Pwrpas y lôn, mae'n amlwg, yw dod â thwristiaid i'r gorllewin i weld y golygfeydd, i fwynhau'r atyniadau, ac i brofi cyfoeth dwylliannol ein hardal. Bwriedir i'r enw newydd ddweud rhywbeth wrth yr holl ymwelwyr sy'n defnyddio'r lôn. Ond onid oes berygl i ni anghofio nad lôn i dwristiaid yn unig mohoni? Onid oes angen cofio mai ein lôn ni i'r ysgol a'r swyddfa, i'r parc diwydiannol a'r ffatri, i'r ysbyty a'r siop, i'r pictiwrws a'r theatr, i'r gêm bêl droed a thŷ Anti Gwen yw hon yn gyntaf? Mentraf ddweud fod trigolion y Gogledd yn fwy na bodlon cadw at 'yr A55' – y lôn a'r enw – a bod cyflwr y ffordd yn llawer pwysicach iddynt nag unrhyw enw.

Pwrpas cyntaf y lôn yw galluogi pobl yr ardal hon i deithio o le i le mor hwylus a dirwysr â phosibl, i fynd i'w gwaith a'u cartrefi, i wneud bywoliaeth ac i fwynhau bywyd. Wrth gwrs y bydd twristiaid yn ei defnyddio hefyd, ond siawns nad oes neb yn awgrymu mai ar eu cyfer hwy yn gyntaf y mae'r lôn yn bodoli?

Mae ffordd yn un o'r delweddau a ddefnyddiodd Iesu i'w ddisgrifio i hunan. 'Myfi', meddai 'yw'r ffordd.' Yn wahanol i'r A55, does dim angen gwella'r ffordd hon gan fod Crist yn ffordd berffaith na ellir ei gwella. Mae'n ffordd sicr a dirwysr, ac yn llwybr diogel i bawb sy'n ei dilyn. Y mae iddi'r pwrpas clir o ddod â phobl at Dduw. Ffordd y bywyd ydi hi: ffordd y mae'n rhaid i ni ei dilyn er mwyn cael y bywyd y mae Duw yn ei gynnig i ni. Ffordd i'w throedio bob dydd yw Crist; ffordd na allwn wneud hebddi.

Crist yw'r ffordd ar gyfer pawb sydd am gael gwir fywyd; y bywyd gwell, a'r bywyd tragwyddol. Nid ffordd y teithiwr achlysurol mohoni; nid ffordd i'w dilyn yn hamddenol er mwyn cael rhyw damaid o grefydd bob hyn a hyn. Y ffordd hanfodol yw Iesu Grist; y ffordd na ellir hebddi.

Ie, dyma'r ffordd at Dduw. Mae'r ffordd ar gael i bawb sy'n ceisio Duw. Ni ellir ei gwella, ac nid oes angen meddwl am enw arall iddi. Pa enw gwell sydd nag enw Iesu?

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



‘Dywed yr ynyfyd yn ei galon, **BEIBL BYW**  
“Nid oes Duw.” ... O na ddôi  
gwaredigaeth i Israel o Seion! Pan adfer  
yr ARGWLWYDD lwyddiant i’w bobl, fe  
lawenha Jacob, fe orfoledda Israel’ (Salm  
14:1 a 7).

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed  
bendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am  
10.30 o’r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o’r  
gloch gan y Parchg Eric Jones, Bangor.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o’r gloch ac oedfa am 3.15 o’r  
gloch yng ngofal y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am  
10.00 o’r gloch a gwasanaethir am 2.00  
o’r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod  
yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Diolch

Dymunwn ddiolch i Eifion Roberts, Sŵn  
y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis a’r  
teulu am eu penderfyniad i roi’r rhoddion  
ariannol a dderbyniwyd er cof am ei  
briod Gwyneth, a fu farw ar Fawrth 26, at  
gronfa Capel Coch.

Derbyniwyd £1560, a gwerthfawrogrir  
pob cyfraniad a gafwyd at y cyfanswm  
hwn.

## Carmel Oedfa Fedydd

Sylwch os gwelwch yn dda mai am 3.15  
o’r gloch y bydd yr Oedfa Fedydd yng  
nghapel Carmel heddiw. Estynnwn  
groeso cynnes i Marec ac Alan a fydd yn  
cyflwyno eu merch fach, Seirian Rhodd, i  
ofal yr eglwys trwy’r sacrament. Croeso  
cynnes hefyd i’r teulu a’r ffrindiau a fydd  
yn ymuno â ni ar gyfer yr oedfa arbennig  
hon. Boed bendith Duw ar y cyfan a  
wneir heddiw.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a  
diolch unwaith eto i Andrew a Dafydd  
am drefnu’r cyfan.

## Oedfa Deulu

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch  
heddiw bydd rhai o aelodau staff Coleg y  
Bala yn dod atom i sôn am y Cwrs Plant  
(isod) sydd i’w gynnal ym mis Mai.

## Cwrs Plant yn Y Bala Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros  
yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos  
Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd  
Sul, Mai 15.

Mae’r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd  
â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl  
blwyddyn erbyn hyn, a dyna’r trefniant  
ar gyfer eleni eto.

Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem  
ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae’r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef  
plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae’n rhaid  
eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed  
erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau’r  
Coleg).

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â’r  
plant i’r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrw poblogaidd  
dros y blynyddoedd, ac mae’r plant wedi  
mwynhau eu hunain arno. Mae’n gyfle  
iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob  
math o wahanol weithgareddau. Bydd  
cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio  
yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i  
wyllo ffilim yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

## Swper Cymdeithas Deiniolen

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas  
Undebol Deiniolen yn y Clwb Golff yng  
Nghaernarfon nos Fawrth, Ebrill 26. Y  
gŵr gwadd fydd Dafydd Iwan, Caethro  
ac edrychwn ymlaen at sgwrs a chân yn  
ei gwmni.

## Wythnos Cymorth Cristnogol

Mai 15–21  
2016

Fedrwch chi helpu efo’r  
casgliadau eleni?



## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir y Cyfarfod Chwarter nesaf yng  
nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00  
o’r gloch, nos Fercher yr wythnos hon,  
Ebrill 27. Ceir anerchiad gan Lywydd  
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y  
Parchg Ddr R Alun Evans, Caerdydd.  
Bydd croeso cynnes i bawb.

## Cymorth Cristnogol

Buan iawn y daw canol Mai ac Wythnos  
Cymorth Cristnogol unwaith eto.  
Bwriedir gwneud y casgliad arferol yn  
Neiniolen a Llanberis, ac felly gobeithio  
y bydd gennym ddigon o wirfoddolwyr i  
wneud y gwaith eleni eto. Os medrwch  
helpu yn Neiniolen, rhowch wybod i  
Neville a Jane Thorman Jones, ac os  
medrwch helpu yn Llanberis rhowch  
wybod i’r Gweinidog.

## Agor y Llyfr

Roedd tîm ‘Agor y Llyfr’ yn Ysgol  
Gwaun Gynfi, Deiniolen fore Gwener, a  
chafwyd croeso cynnes unwaith eto. Y  
tro hwn, hanes Arch Noa oedd y stori a  
gyflwynwyd yn y gwasanaeth boreol.  
Mae’n dda gweld ymateb da’r plant i’r  
cyflwyniadau hyn bob mis.